**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

## Beth yw Trefniant Maethu Preifat?

Weithiau, bydd rhiant yn defnyddio trefniant anffurfiol i'w plentyn/plant dderbyn gofal gan ffrind neu berthynas pell.

Os yw plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed (neu o dan 18 oed os yw'r plentyn yn anabl) yn byw oddi cartref am 28 diwrnod neu ragor (neu'n bwriadu gwneud hynny) a'i fod yn derbyn gofal gan rywun NAD yw'n berthynas agos, mae hwn yn drefniant maethu preifat.

Mae perthynas agos wedi'i ddiffinio fel:

- Rhiant
- Mam-gu neu dad-cu
- Person â chyfrifoldeb rhiant
- Llys-riant (trwy briodas neu bartneriaeth sifil)
- Modryb
- Ewythr
- Chwaer
- Brawd

Mae maethu preifat yn drefniant rhwng rhieni'r plentyn/person sydd â chyfrifoldeb rhiant a'r gofalwyr. Nid yw plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn blentyn sy'n cael ei faethu'n breifat.

Rhaid i rieni ddweud wrth yr Awdurdod Lleol eu bod nhw'n gwneud trefniadau i'w plentyn fyw gyda gofalwr maeth preifat.

Os yw rhywun yn bwriadu dod yn ofalwr maeth preifat i blentyn, rhaid iddo roi gwybod i'r Awdurdod Lleol o leiaf chwe wythnos cyn i'r trefniant ddechrau, neu ar unwaith os yw'r trefniant i fod i ddechrau'n gynt.

Mae rhieni'n cadw cyfrifoldeb rhiant, gan gynnwys cyfrifoldeb ariannol am y plentyn.

## Dyma enghreifftiau a rhesymau ar gyfer Maethu Preifat:

- Teulu'n chwalu a salwch yn y teulu
- Plant y mae eu rhieni yn astudio neu'n gweithio oriau anghymdeithasol, sy'n ei gwneud yn anodd iddyn nhw ddefnyddio gofal plant arferol neu adnoddau ar ôl ysgol. Rhaid i hyn gynnwys aros dros nos
- Plant wedi'u hanfon o'r tu allan i'r DU i gael addysg (gan gynnwys ysgolion preswyl ac iaith) neu gyfleoedd iechyd

• Myfyrwyr cyfnewid diwylliannol

• Plant sy’n byw gyda theulu ffrind o ganlyniad i ddadleuon gartref, rhieni’n gwahanu, ysgariad ac ati

• Pobl ifanc yn eu harddegau sy'n byw gyda theulu cariad

• Rhai plant sy'n ffoaduriaid

• Unrhyw blentyn y mae ei rieni neu bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto wedi GWNEUD trefniant preifat iddo dderbyn gofal gan rywun arall

• Unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gan rywun arall nad yw'n berthynas agos ar SAIL BREIFAT heb i'r rhieni gymryd rhan

**Dod â threfniadau maethu preifat i ben**

Gall rhiant ddod â threfniant maethu preifat i ben unrhyw bryd a heb rybudd. Os ydych chi’n ofalwr maeth preifat sy’n meddwl bod rhesymau cryf pam y dylai plentyn aros yn eich gofal, efallai hoffech chi ystyried gwneud cais am Orchymyn Trefniadau Plentyn neu Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a fyddai’n rhoi cyfrifoldeb rhiant i chi a chadarnhau y dylai’r plentyn fyw gyda chi. Os nad ydych chi’n siŵr beth yw’r opsiwn gorau i chi a’r plentyn sy’n derbyn gofal, dylech chi gael cyngor cyfreithiol.

**Beth yw dyletswyddau’r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant?**

Nid yw’r Awdurdod Lleol yn cymeradwyo nac yn cofrestru gofalwyr maeth preifat yn ffurfiol ond mae ganddyn nhw ddyletswydd i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn iach.

Rhaid i Awdurdodau Lleol wneud y canlynol:

• Ymweld â'r teulu o fewn 7 diwrnod ar ôl cael gwybod.

• Cynnal asesiad i bennu a yw’r trefniant yn addas.

• Ymweld â'r teulu bob 6 wythnos yn y flwyddyn gyntaf a phob 12 wythnos wedi hynny i fonitro addasrwydd y trefniant maethu preifat a'i fudd i'r plentyn sy'n cael ei faethu'n breifat.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu bod trefniant yn anaddas ac na all y plentyn ddychwelyd at ei rieni, rhaid i’r Awdurdod benderfynu pa gamau i’w cymryd i ddiogelu lles y plentyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006 (legislation.gov.uk)

**Beth alla i ei wneud fel gweithiwr proffesiynol?**

Os byddwch chi’n dod yn ymwybodol o drefniadau maethu preifat, neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm maethu eich awdurdod lleol.